

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 17eg GORFFENNAF, 2023**

**1**

**1.1 CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

**1.2 PRESENNOL**

Cyng. Alun Morris (Cadeirydd)(AR) Cyng. Hefin Martin(MH) Cyng. John Owen(JO), Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Delyth Algieri (clerc).

Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO)

**1.3 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Dylan Jones(DJ), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AR)

**2. CADARNHAU'R COFNODION 26AIN MEHEFIN 2023**

Cynnigwyd yn gywir gan (JO) ac eilwyd gan (HM).

**3. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

**3.1 BINIAU BAW CWN**

Cadarnhaodd y clerc fod y biniau cwn wedi cael ei gosod un yn Penrhiw Llanddoged ar llall yn maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

**3.2 MATERION BAW CWN**

Y clerc wedi derbyn poster "Hysbysiad cosb cwn yn Baeddu" gan Gyngor Conwy i osod i fynu o amgylch y pentref.

**3.3 ARWYDD AR GYFER MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Y clerc wedi cwblhau y ffurflen gais am grant gan Gronfa Bwrdd Dwr Cymru tuag at y gost am yr arwydd i faes parcio Cadair Ifan Goch Maenan..

**3.4. MAES PARCIO CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Y clerc wedi derbyn dyfynbris am roi haenan o 'darmac plannings' ar wyneb y maes parcio gan y cwmni C T Roberts o Lanrwst am £1,836 yn cynnwys TAW.

Trafodwyd y pris a phenderfynwyd gan mae arian grant fydd y cyngor yn ceisio i ariannu'r gwaith pasiwyd i'r clerc holi am bris o gael darmacio y maes parcio.

**4. CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

4.1 Pasiwyd i'r clerc gwblhau ceisiadau am y Grant Cronfa Ffyniant Cyffredin y Du Conwy

ar gyfer:-

- a) Tarmacio y maes parcio Gegin Wen, Llanddoged.
- b) Arwydd maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.
- c) Bwrdd picnic ar gyfer y Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

## **5. CYNLLUNIO**

5.1 **Cyfeirnod:** 0/50881 Guto Roberts Garej/cysylltiad newydd rhwng y ty newydd a'r garej ar wahân er mwyn cysylltu'r gofod a darparu gofod storio ychwanegol Waen Oer Ffordd Ffrith Llanddoged Llanrwst LL26 0LJ

Trafodwyd aelodau'r cyngor y cais cynllunio uchod a phenderfynwyd a phasiwyd drwy aelodau y cyngor godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad.

## **6. Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd

y gyfriflen banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb

## **7. CYNNAL A CHADW**

7.1 - Loriau ail-gylchu yn gadael llanast ar eu holau.

Cyng Nia Owen am gysylltu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â'r mater yma.

7.2 Cais gan berchnogion Rhiwlas, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged i gael rhywun i edrych ar gyflwr y goeden sydd gyferbyn a'i cartref. Y clerc i gysylltu gydag Emyr Jones o'r Adran Priffyrdd Conwy a Morfydd Jones, Maes Mawr, Llanddoged i gael gwybodaeth pwy ydi perchennog y goeden.

## **8. AWDIT ARCHWILIO CYMRU**

Awdit Archwilio Cymru angen y wybodaeth ganlynol ar gyfer Awdit 2022-23

- Copi o gofnodion y cyfarfod pan benderfynodd y cyngor pa lwfansau y dylid ei talu i'r aelodau.

- Copïau o lythyrau gan unrhyw aelodau unigol sy'n penderfynu gwrthod y lwfans.

- Copi o'r datganiad o daliadau a dalwyd ar gyfer 22/23

- Tystiolaeth eich bod wedi cyflwyno'r datganiad o daliadau i'r IRPW

Y clerc i anfon y wybodaeth ymlaen i'r awditors.